COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD IAU, 20 GORFFENNAF 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd J Gebbie – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | JPD Blundell | HJ David | N Farr |
| W R Goode | M Lewis | J E Pratt | T Thomas |
| HM Williams | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Steve Berry | Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyflogiad |
| Raeanna Grainger | Independent Reviewing Service Manager |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |

27. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

RJ Collins a/ac JC Spanswick

28. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim

29. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet dyddiedig 19 Ebrill 2023, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

30. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL 2022- 2023

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) a Diogelu adroddiad oedd yn disgrifio’r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, yn unol â Chanllawiau Swyddogion Adolygu Annibynnol (Cymru) 2004.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol.

Eglurodd mai rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) yn bennaf yw sicrhau bod cynllun gofal y plentyn yn addas ac yn cwrdd â’i anghenion datblygol a herio unrhyw faterion o oedi wrth gyflawni amcanion y cynllun gofal a/neu unrhyw broblemau oedi. Rhydd y rôl bwyslais cryf ar sicrhau ansawdd a herio'r awdurdod lleol pan na fydd yn fodlon mewn meysydd gwneud penderfyniadau.

Mae’r Swyddogion Adolygu Annibynnol ym Mhen-y-bont ar Ogwr hefyd yn cadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant, a’u rôl yn y fan honno yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gwneud penderfyniadau pwysig ar sail tystiolaeth a gweithdrefnau diogelu. Yn bwysicaf oll, esboniodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth IAA a Diogelu, mae’n rhaid i Wasanaeth yr IRO sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog wrth wneud penderfyniadau a’i fod yn cael gwybod am ei hawliau a’i amgylchiadau.

Mae pwyslais cryf ar ddata ansoddol yn yr adroddiad blynyddol a chyfraddau cydymffurfio, ond hefyd, prosesau cryfach a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi cwrdd ag amcanion y cynllun blynyddol.

Mae'r adroddiad yn ystyried ymhellach sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r cynnydd yn y galw a'r niferoedd cynyddol o blant sy'n destun cofrestriad Amddiffyn Plant, a'r hyn sy'n cael ei wneud i leihau'r ffigwr hwn.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r gwelliannau a wnaed o ran sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i wneud penderfyniadau a'r ffordd y mae'r cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau at y gwasanaeth eiriol yn cefnogi hyn.

Dywedodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth IAA a Diogelu y gellid darllen y Cynllun Blynyddol wedi'i ddiweddaru yn adran olaf yr adroddiad yn Atodiad 1 i'r adroddiad eglurhaol, a bod hwn yn tynnu sylw at y nodau ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.

Felly, roedd Atodiad 1 yn ymdrin â gwaith gwasanaeth yr IRO rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad o ran adolygiad statudol plant sydd wedi cael Profiad o Ofal, gan gynnwys plant â chynlluniau ar gyfer Mabwysiadu a Phobl Ifanc â Chynlluniau Llwybr Gadael Gofal (dan 18 oed) gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am blant oedd yn destun cynllun amddiffyn plant ac adolygiadau o'r cynlluniau hyn mewn Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant.

Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth oedd yn ymwneud â gofynion rheoleiddiol o ran datrys anghydfod mewn achosion, llwythi achosion yr IRO, cyfranogiad pobl ifanc yn eu Hadolygiadau ac ymgynghori â hwy, yr heriau a'r cyflawniadau yn ystod y cyfnod adrodd, a blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer 2023-2024.

Amlinellodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth IAA a Diogelu fod y Swyddogion Adolygu Annibynnol, fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad, wedi cadeirio/adolygu 406 (cynnydd o 51%) o Gynadleddau Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 o gymharu â 200 y flwyddyn flaenorol. Cynullwyd cyfanswm o 659 o Gynadleddau Achos Adolygu Amddiffyn Plant (RCPC) rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 o gymharu â 508 (cynnydd o 23%) yn y cyfnod adrodd blaenorol. Cynhaliwyd pob RCPC o fewn yr amserlen statudol. Yn y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd 1,125 o gyfarfodydd adolygu Profiad o Ofal rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 o gymharu â 1,159 y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf o ganlyniad i fwy o sefydlogrwydd lleoliadau.

Eglurodd fod yr IRO, ar ôl pob cyfarfod, yn cwblhau archwiliad sicrwydd ansawdd. Mae'r Archwiliad ar gael i'r Gweithiwr Cymdeithasol a'r Rheolwr Tîm i'w hysbysu am waith/camau gweithredu sy'n weddill. Mae'r archwiliad yn cefnogi'r IRO wrth olrhain yr achos ac yn cefnogi nodi arfer da a meysydd i'w gwella. Mae'r archwiliad hefyd yn cefnogi'r Rheolwr Tîm wrth oruchwylio'r Gweithiwr Cymdeithasol.

Roedd gwaith blaenorol wedi cael ei wneud i wella'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau ymateb yn dal yn isel iawn o hyd. Mae cyflwyno Timau Microsoft wedi galluogi mwy o bobl ifanc i fynychu eu cyfarfodydd, yn enwedig eu cyfarfodydd Adolygu Profiad o Ofal. Bydd cyflwyno Arwyddion Diogelwch yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar gyfranogiad a disgwylir y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data.

Tynnodd yr adroddiad sylw at gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau ar gyfer eiriolaeth sy'n cefnogi ac yn cyfleu llais, dymuniadau a theimladau'r plant a'r bobl ifanc y gweithiwyd â hwy.

Mae gwasanaeth yr IRO yn parhau i weithio gyda'r timau diogelu, addysg, y gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Ysgol a Gwasanaethau Bydwreigiaeth i wella ymarfer o amgylch cynadleddau amddiffyn plant. Y cam nesaf yw gweithio ar wella ansawdd adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ar sail aml-asiantaeth. Mae Rheolwr Gwasanaeth yr IRO yn y cyfnod hwn wedi hwyluso hyfforddiant ar Weithdrefnau Diogelu Cymru ac mae asiantaethau partner wedi eu cynnwys yn y broses o gyflwyno'r model ymarfer Arwyddion Diogelwch a'r hyfforddiant ar gyfer hyn.

Sicrhaodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth IAA a Diogelu eu bod yn ceisio gwella'r gwasanaeth yn barhaus drwy'r amser ac fel y cyfryw mae Gwasanaeth yr IRO yn anelu at barhau i gael mwy o effaith o ran gwella ansawdd bywydau plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Rhoddodd hefyd gyflwyniad PowerPoint ar Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol am y cyfnod uchod, gan roi crynodeb er budd yr Aelodau, o'r pwyntiau allweddol a ddeilliodd o hyn, y tynnwyd sylw at rai ohonynt uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Grŵp y Gwasanaeth IAA a Diogelu am yr adroddiad, a theimlai fod hwn yn ddeunydd darllen ardderchog. Wedyn agorodd y cyfarfod i gwestiynau a gellir gweld y rhain ynghyd ag atebion y Swyddogion drwy'r ddolen ganlynol link

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet yn nodi'r adroddiad a Chynllun Gweithredu Gwasanaeth y Swyddogion Adolygu Annibynnol.

31. DIWEDDARIAD YNGHYLCH DATBLYGIAD RHIANTA CORFFORAETHOL.

Cyflwynodd y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi adroddiad diweddaru, i roi gwybod i Bwyllgor y Cabinet am y cynnydd o ran gweithgaredd rhianta corfforaethol. Dywedodd mai'r pwyntiau neilltuol i'w nodi oedd bod y Strategaeth Rhianta Corfforaethol wedi cael ei lansio a bod digwyddiad ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol wedi cael ei gynnal hefyd i gynllunio camau gweithredu ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Fel peth cefndir, hysbysodd yr Aelodau fod diweddariadau i'r Pwyllgor wedi cael eu darparu mewn cyfarfodydd ar y meysydd allweddol a ganlyn, ers iddo fod yn ei swydd:-

- Sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer Cyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol.
- Sefydlu strwythur llywodraethu sy'n cefnogi'r dull strategol a gweithredol o gyflawni Rhianta Corfforaethol.
- Sefydlu Fframwaith Perfformiad Rhianta Corfforaethol.
- Sefydlu fforymau ar gyfer rhai â phrofiad o ofal i roi llais cyfunol i'n plant a'n pobl ifanc.

Yna rhoddodd y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi grynodeb o'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r meysydd hyn fel y cyfeiriwyd yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y gwaith yr oedd y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi wedi bod yn ei wneud ers iddo fod yn ei swydd, wedi cael ei gydnabod fel arfer da o fewn Llywodraeth Cymru ac y byddai'n datblygu canllawiau, fyddai'n cyd-fynd â'n Strategaeth Rianta Corfforaethol, a gâi eu defnyddio gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio, gan fod yr uchod wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru, y byddai'r gwaith a ddatblygwyd fel rhan o'r canllawiau hyn yn

cael ei gefnogi'n ariannol ganddynt. Gofynnodd hefyd am sicrwydd bod plant a phobl ifanc yn y Fwrdeistref Sirol yn cael 'llais' pan fyddai CBS Pen-y-bont ar Ogwr a'i bartneriaid yn ystyried newidiadau polisi. Roedd yn siŵr mai felly yr oedd hi, gan fod hynny wedi dod i'r amlwg yn uchel ac yn glir mewn Lansiad yr oedd wedi bod yn bresennol ynddo'n ddiweddar.

Sicrhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yr Aelodau fod hyn yn wir fel y gwelwyd yn Fforwm Llais Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.

Ychwanegodd y byddai'r Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi yn sicrhau, yn ystod cyfnod yr haf, y byddai ymgysylltiad ystyrlon yn cael ei gynnal gyda phlant a phobl ifanc, ar y Cynllun Cynaladwyedd drafft ar gyfer Plant a Theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, rhywbeth a godwyd yn flaenorol drwy'r Broses Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol yn nodi'r cynnydd a wnaed, a nodwyd yn yr adroddiad, a'i fod yn cytuno i fuddsoddi yn natblygiad gweithgarwch Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'w blant a phobl ifanc.

32. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH EIRIOL RHANBARTHOL 2022- 2023

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth IAA a Diogelu adroddiad, a'i ddiben oedd tynnu sylw at agweddau allweddol ar y gwasanaeth a ddarperid gan Tros Gynnal Plant, sef darparwr rhanbarthol CBSP. Roedd Rheolwr Tîm Tros Gynnal Plant gyda hi yn y cyfarfod.

Roedd adroddiadau perfformiad manwl wedi eu cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad eglurhaol fel a ganlyn:

Atodiad 1: Adroddiad Eiriolaeth Blynyddol Pen-y-bont ar Ogwr 2022- 2023
Atodiad 2: Adroddiad Eiriolaeth Blynyddol Rhanbarthol CTM 2022- 2023

Mae Tros Gynnal Plant (TGP) yn darparu gwasanaeth eiriol rhanbarthol yng Nghwm Taf Morgannwg (CTM). Mae TGP wedi darparu gwasanaethau eiriol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers blynyddoedd lawer ac mae'n ddarparwr sefydledig yn lleol, yn ogystal â bod y darparwr eiriolaeth mwyaf i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Roedd gwybodaeth gefndir yr adroddiad yn cadarnhau bod Tros Gynnal Plant (TGP) yn darparu gwasanaeth eiriol rhanbarthol yng Nghwm Taf Morgannwg (CTM). Mae TGP wedi darparu gwasanaethau eiriol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers blynyddoedd lawer ac roedd yn ddarparwr sefydledig yn lleol, yn ogystal â bod y darparwr eiriolaeth mwyaf i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Dywedodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth IAA a Diogelu fod TGP yn darparu adroddiadau perfformiad chwarterol manwl, yn ogystal â bod y darparwr hwn hefyd yn darparu adroddiad blynyddol ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr a rhanbarth CTM. Roeddent yn ymdrin ag agweddau gwasanaeth allweddol Eiriolaeth Seiliedig ar Faterion, a'r Cynnig Rhagweithiol o eiriolaeth.

Roedd Atodiad 1 i'r adroddiad yn gweld bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl oedd wedi defnyddio gwasanaeth yr IBA eleni o gymharu â'r llynedd, gan gynnwys rhai unigolion oedd wedi ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Y dulliau mwyaf poblogaidd o ddefnyddio'r gwasanaeth oedd drwy'r llwybr 'hunangyfeirio', ac yna atgyfeiriadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd ‘Cynnig Rhagweithiol’ (AO) o eiriolaeth yn elfen graidd o’r gwasanaeth statudol, ac roedd mwyafrif y bobl ifanc a atgyfeiriwyd ar gyfer AO ym Mhen-y-bont ar Ogwr y llynedd, rhwng blynyddoedd 6 ac 11.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod TGP yn parhau i fod yn gyfrifol am hwyluso cyfranogiad pobl ifanc a grwpiau ymgynghori ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a elwir bellach yn Fforwm Llais Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr, neu Fforwm ‘BYV’. Nod y grŵp oedd galluogi pobl ifanc â phrofiad o ofal a’r rhai sy’n gadael gofal i gael llais mewn fforymau ehangach ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys Bwrdd Rhianta Corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pwysleisiodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth IAA a Diogelu fod TGP yn parhau i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol i bobl ifanc ddarparu adborth i fod o gymorth i wella’r gwasanaeth eiriol, er enghraifft, drwy ddefnyddio cod QR y gallant ei sganio o’u ffonau symudol ac sy'n cysylltu â holiadur byr.

Roedd TGP wedi nodi nad yw gweithwyr cymdeithasol bob amser yn gallu ymateb i rai cyfathrebiadau achos, gan olygu bod achosion eiriolaeth rhai pobl ifanc yn aros ar agor yn hwy nag y mae angen iddynt fod. Nodir hyn yn adroddiad lleol Pen-y-bont ar Ogwr (Atodiad 1 yr adroddiad) a'r adroddiad rhanbarthol (Atodiad 2). Bydd maint y gwaith sy’n cael ei reoli mewn gwasanaethau plant statudol wedi cael effaith ac wedi canolbwyntio gwaith i leihau llwythi achosion yn ddiogel, fydd yn ei dro yn gymorth i wella ymatebolrwydd.

Yn dilyn newidiadau diweddar yng Ngwasanaethau Plant CBSP, gan gynnwys penodi Unigolyn Cyfrifol newydd (i hyrwyddo, monitro a gwella ansawdd y gwasanaeth), roedd TGP wedi cyfarfod ac ymgysylltu â CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar nifer o lefelau i ddatblygu perthnasoedd gwaith ymhellach a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brosesau atgyfeirio ar gyfer eiriolaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch y dulliau yr oeddem yn eu defnyddio i hyrwyddo ffyrdd o annog gwirfoddolwyr ar gyfer cymorth TGP mewn perthynas â'r Gwasanaeth Ymweld Annibynnol, yn enwedig o ran hyrwyddo/hysbysebu cyfleoedd o'r fath.

Dywedodd Rheolwr Tîm y TGP fod swydd Cydgysylltydd Annibynnol wedi cael ei chreu i’r pwrpas o hyrwyddo recriwtio ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen ar gyfer yr uchod. Ychwanegodd y byddai'r nifer cynyddol o wirfoddolwyr yn cael eu paru â phobl ifanc oedd yn destun atgyfeiriadau, yn eu tro, i leihau'r amser yr oedd yr unigolion hyn yn ei dreulio ar y rhestr aros. Ychwanegodd Rheolwr Tîm y TGP fod hyfforddiant hanfodol yn cael ei roi i wirfoddolwyr, er mwyn iddynt fedru cyflawni'r gwaith, sy'n rhan o'u rôl, yn llwyddiannus.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn falch o nodi'r gwelliant yn nifer y plant sy'n manteisio ar wasanaethau eiriol. Teimlai fod hyn yn hanfodol er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed. Teimlai hefyd fod hyn yn hanfodol i blant hŷn, yn enwedig y rhai oedd â heriau eraill i'w goresgyn.

Sicrhaodd Rheolwr Tîm y TGP yr Aelodau fod yna Eiriolwyr profiadol yn eu lle, oedd yn rheoli sefyllfaoedd plant iau drwy nifer o fentrau, a bod hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw un ag anabledd, er enghraifft, oedd yn defnyddio gwasanaethau eiriol. Ychwanegodd ymhellach fod yna ymagwedd aml-asiantaeth tuag at wasanaethau o'r fath.

Yn olaf, dywedodd Rheolwr Tîm y TGP fod yna hefyd wasanaeth Eiriol heb gyfarwyddyd, yn ogystal â'r gwasanaeth prif ffrwd.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet yn nodi'r adroddiad.

33. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:25